Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

**SWYDDOG DYSGU A DATBLYGU (SGILIAU CYFFREDINOL A THECHNEGOL)**

**Rhif y Swydd: 503164**

**GRADD: 9 - Cyflog: £28,226 - £30,095 y flwyddyn**

**37 awr yr wythnos**

**Parhaol**

Mae swydd barhaol fel Swyddog Dysgu a Datblygu (Sgiliau Cyffredinol a Thechnegol) wedi codi o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Wedi'i lleoli ym Mhencadlys GTADC yn Llantrisant, mae'r swydd lawn amser, barhaol newydd hon (37 awr) yn rhan o dîm Dysgu a Datblygu'r Gwasanaeth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddarparu datrysiadau dysgu, datblygu ac ymgysylltu proffesiynol i weithwyr GTADC drwy gydol eu cylch bywyd cyflogaeth.

Bydd y swydd yn canolbwyntio ar gyflwyno dosbarthiadau meistr Gwasanaeth (darpariaeth fewnol ac allanol), a hefyd yn cefnogi gwreiddio prosesau datblygu newydd megis adolygiadau perfformiad, llwybrau arweinyddiaeth ac atebion hyfforddi. Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus felly allu dangos sgiliau cynllunio, cyfathrebu a chyflwyno rhagorol ynghyd ag angerdd i yrru diwylliant mwy cynhwysol a thrawsnewidiol yn ei flaen ar draws y Gwasanaeth. Byddai profiad o weithio gyda System Rheoli Dysgu yn fonws ond nid yw'n hanfodol.

Achos natur y rôl, bydd adegau pan fydd angen i'r unigolyn weithio gyda'r nos neu ar benwythnosau a bydd rhywfaint o deithio ar draws rhanbarth GTADC. Mae'r gallu i deithio'n annibynnol yn ofynnol. Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a bydd polisi gweithio'n hyblyg mewn grym.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol a Gwiriad gan Wasanaeth Datgelu'r Alban cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-diweddaraf/

Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **12:00, ganol dydd 17/11/2022.**

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

South Wales Fire and Rescue Service believes in the real value of having a diverse workforce and we proactively want to encourage applicants from all sectors of our community to apply.

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG